# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Caderiydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Paul Ellis, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, G O Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Margaret Murley Roberts a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Douglas M Fowlie a Alwen Watkin |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2022 ac fe gawsant eu cadarnhau fel cofnod cywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y golygai ryddhau gwybodaeth a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni ym Mharagraff 12 o Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

**4 DIWEDDARIAD AR Y BROSES RECRIWTIO**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried - adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn darparu diweddariad ar y broses recriwtio hyd yma mewn perthynas â'r swydd Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

Roedd yr adroddiad yn gosod allan canlyniadau tri cham cyntaf y broses recriwtio pum cam a gytunwyd â'r Pwyllgor Penodiadau yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2022 mewn cysylltiad â'r ymgeiswyr ar y rhestr fer. Rhoddodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ddiweddariad llafar yn y cyfarfod am ganlyniad y pedwerydd cam yn y broses recriwtio a oedd yn cynnwys cyfweliad proffesiynol. Bu i'r Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid gynghori, yn seiliedig ar y broses hyd yma, yr argymhellir fod yr ymgeiswyr ar

y rhestr fer yn mynd yn eu blaenau i'r bumed cam o'r broses recriwtio h.y. cyfweliad ffurfiol gyda'r Pwyllgor Penodiadau.

**Penderfynwyd symud ymlaen yn unol ag argymhelliad y Swyddog bod yr ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu cyfweld yn ffurfiol gan y Pwyllgor Penodiadau mewn cyfarfod a gynhelir ar 20 Gorffennaf, 2022.**

**Y CYNGHORYDD LLINOS MEDI**
**CADEIRYDD**